Aberystwyth ni fu'n ofynnol i ni ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Gylch. Aed ymlaen yn syth i'r Sir y Sadwrn canlynol yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth. Cafodd y plant hwyl yn perfformio a bu'n brofiad gwerthfawr iddynt gan hawlio'r ail safle. Erbyn hyn, deallwn bod y ddwy gân actol a ymddangosodd yn yr Eisteddfod Sir yn cael cynrychioli Ceredigion yn y Genedlaethol yng Nghwm Gwendraeth yn ystod y Sulgwyn. Ein dymuniadau gorau i chwi a phawb o ardal Y TINCER a fydd yn cario baner Ceredigion i'r hen Shir Gâr ddiwedd Mai.

Treuliodd plant Safon 4 orig ddiddorol dros ben un bore yn cael eu tywys o amgylch y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.